Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Mawrth 2015

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 10 Chwefror ynghylch gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddibynnol ar Ddatganiad yr Hydref y Canghellor.

Rwy'n croesawu eich awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o wella is-ddeddfwriaeth o'r fath ac rwy'n cytuno bod modd cymryd camau i helpu â phroses graffu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Byddaf yn ceisio ysgrifennu atoch erbyn 31 Hydref i ddweud beth yw dyddiad disgwyliedig Datganiad yr Hydref y Canghellor, a'ch hysbysu am is-ddeddfwriaeth y gallai fod angen ei gwneud, ynghyd ag unrhyw amserlenni a chyfyngiadau perthnasol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bendant gan nad yw'r mesurau polisi y mae'r Canghellor yn bwriadu eu cyhoeddi, ynghyd ag unrhyw gyllid canlyniadol, fel arfer yn hysbys cyn y Datganiad.

Lle bo'n bosibl, byddaf hefyd yn ceisio cadw at yr ail a'r trydydd pwynt a gynigir gennych. Ni allaf warantu hyn gan fod is-ddeddfwriaeth o'r fath yn dibynnu ar nifer o ffactorau sydd y tu hwnt i'm rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys adrannau Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth yn brydlon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk
*Printed on 100% recycled paper*

Ar ben hyn, mae sgil-effeithiau sylweddol o beidio â gwneud is-ddeddfwriaeth o fewn y cyfyngiadau amser, er enghraifft drwy beidio ag adlewyrchu cynnydd mewn costau byw mewn faint o gymorth y Dreth Gyngor a roddir i ymgeiswyr neu oedi'r gwaith paratoi gan awdurdodau lleol ar gyfer gosod eu cyllidebau.

Hoffwn ddatgan eto fy niolchiadau i'r Pwyllgor am ei gymorth wrth wneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 a Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cofion cynnes,

Leighton Andrews

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services